

## PRIFYSGOL BANGOR

### Ysgoloriaeth Ymchwil Cyfrwng Cymraeg: Defnyddio'r Gymraeg yn y Gweithle

Mae Prifysgol Bangor yn cynnig ysgoloriaeth ymchwil PhD ym maes Seicoleg Newid Ymddygiad a Chynllunio Iaith. Cyllidir yr ysgoloriaeth hon gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Mae'r prosiect arfaethedig yn cyfuno arbenigeddau ymchwil ac ymarfer y Ganolfan Newid Ymddygiad (Ysgol Seicoleg Prifysgol Bangor) a Chanolfan Bedwyr (Canolfan Gwasanaethau, Technoleg ac Ymchwil Cymraeg Prifysgol Bangor) mewn modd arloesol er mwyn ymchwilio i ddefnydd o'r Gymraeg yn y gweithle. Cyfunir cysyniadau a methodolegau o faes Seicoleg, ac yn benodol gwyddor Newid Ymddygiad, gydag ymwybyddiaeth ddiwylliannol ac ieithyddol a pholisi a chynllunio iaith. Bydd y myfyriwr yn cael ei drwytho mewn dulliau ymchwil meintiol ac ansoddol ac yn datblygu dull gweithredu wedi'i selio ar dystiolaeth; bydd yn defnyddio adrannau ym Mhrifysgol Bangor fel mannau prawf i ddatblygu sail tystiolaeth ar gyfer ymyriadau sydd wedi'u hanelu at ddatblygu gweithleoedd gwirioneddol ddwyieithog. Bydd i ganfyddiadau'r prosiect y potensial i ddylanwadu ar bolisiau a dulliau gweithredu yng Nghymru a thu hwnt yng nghyd-destun datblygu a chynnal gweithle dwyieithog.

Mae'r Ysgoloriaeth Ymchwil hon ar gael am gyfnod o dair blynedd ar gyfer ymchwil yn arwain at ddoethuriaeth. Mae'r Ysgoloriaeth gyferwerth yn ariannol ag ysgoloriaethau ôl-raddedig a ddyfernir gan y Cynghorau Ymchwil. Bydd y cynllun yn daprau cyllid ar gyfer talu'r (i) ffioedd safonol i'r sefydliad a (ii) grant cynhaliath ar gyfer deiliad yr ysgoloriaeth. Bydd disgwyl i'r myfyriwr llwyddiannus hefyd wneud peth gwaith dysgu cyfrwng Cymraeg yn yr Ysgol Seicoleg fel un o amodau'r Ysgoloriaeth. Am fanylion llawn am yr ysgoloriaeth gweler: [www.colegcymraeg.ac.uk/en/media/main/dogfennau-ccc/cylchlythyron/CYF14\\_04YsgoloriaethauYmchwil2015\\_16.pdf](http://www.colegcymraeg.ac.uk/en/media/main/dogfennau-ccc/cylchlythyron/CYF14_04YsgoloriaethauYmchwil2015_16.pdf)

Ym Mhrifysgol Bangor ceir un o'r adrannau Seicoleg hynaf a mwyaf llwyddiannus yn y Deyrnas Unedig. Sefydlwyd yr ysgol yn 1963 - ac wrth iddi ddathlu ei hanner canmlwyddiant yn 2013, fe'i gosodwyd yn y 17eg safle yn y DU (o blith 82 o adrannau, yn cynnwys adrannau seicoleg, seiciatreg a niwrowyddoniaeth) yn Ymarfer Asesu Ymchwil 2014, ac yn y deg uchaf yn y DU am ansawdd ei haddysgu yn Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr 2014, gan ddod yn gyntaf yng Nghymru am safon ei haddysgu. Golyga hyn mai dim ond Ysgol Seicoleg Bangor ac un ysgol arall yn y DU sydd wedi'u gosod yn y deg uchaf am ragoriaeth ei haddysgu a'r ugain uchaf am ragoriaeth ei hymchwil:

[www.bangor.ac.uk/psychology/index.php.cy](http://www.bangor.ac.uk/psychology/index.php.cy)

Mae Canolfan Bedwyr yn ganolfan arweiniol o ran cynllunio iaith yng Nghymru gydag arbenigeddau ym mhob elfen o'r maes (polisi, cyfieithu, hyfforddiant iaith, cynllunio corpws a thechnolegau iaith):

[www.bangor.ac.uk/canolfanbedwyr/index.php.cy](http://www.bangor.ac.uk/canolfanbedwyr/index.php.cy)

Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn nodd i nifer o fyfyrwyr ôl-radd ar gyfer doethuriaeth yn flynyddol drwy ei gynllun Ysgoloriaethau Ymchwil. Nod y cynllun yw cyfrannu at nod strategol y Coleg o 'hwrwyddo a datblygu ysgolheictod, ymchwil a chyhoeddi drwy gyfrwng y Gymraeg' a meithrin 'ymchwilwyr o'r safon uchaf': <http://www.colegcymraeg.ac.uk/cy/academaidd/ysgoloriaethauymchwil/>

### Bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus y cymwysterau / cryfderau canlynol:

- Gradd ail ddosbarth uwch / dosbarth cyntaf mewn Seicoleg neu faes perthnasol

- Gradd Meistr mewn Seicoleg neu mewn maes perthnasol (erbyn 31 Gorffennaf 2015)
- Y gallu i siarad ac ysgrifennu Cymraeg yn rhugl
- Diddordeb gwirioneddol mewn a gwybodaeth gyffredinol am faterion yn ymwneud â chynllunio ar gyfer dyfodol y Gymraeg.
- Y dyfalbarhad sydd ei angen i gwblhau PhD trwy ymchwil o fewn cyfnod yr ysgoloriaeth.
- Y gallu i gyflawni dyletswyddau dysgu cyfrwng Cymraeg yn yr Ysgol Seicoleg.

### **Sut i wneud cais**

Dylai ymgeiswyr anfon llythyr cais yn cynnwys amlinelliad o'u syniadau ar gyfer y project ymchwil arfaethedig (dim mwy na 1,000 o eiriau), copi cyfredol o'u CV, ynghyd ag enwau dau ganolwr sy'n gyfarwydd â'u gwaith academiaidd, at:

Dr Carl Hughes, Ysgol Seicoleg, Adeilad Brigantia, Lon Penrallt, Bangor, Gwynedd, LL57 2AS  
Ebost: [c.hughes@bangor.ac.uk](mailto:c.hughes@bangor.ac.uk)

**Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw dydd Gwener, 29 Mai 2015. Bydd cyfweiliadau ar gyfer yr ysgoloriaeth yn cael eu cynnal ddydd Mawrth, 16 Mehefin 2015.**

Am fwy o wybodaeth am yr ysgoloriaeth, cysylltwch â Dr Carl Hughes yn yr Ysgol Seicoleg ([c.hughes@bangor.ac.uk](mailto:c.hughes@bangor.ac.uk) / 01248 383278) neu Dr Lowri Hughes yng Nghanolfan Bedwyr ([l.a.hughes@bangor.ac.uk](mailto:l.a.hughes@bangor.ac.uk) / 01248 383293).

*This is an advertisement for a PhD Research scholarship in Behaviour Change Psychology and Language Planning, for which the ability to speak and write Welsh fluently is essential.*